
FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011 at 10.00 am
Bodlondeb, Conwy

YN BRESENNOL:	Howie Roberts (Cadeirydd)	Cadeirydd - Pwyllgor Safonau Conwy
	Lynn Ball Jeff Cotterell Clive B. Halliday	Swyddog Monitro – Ynys Môn Cadeirydd - Pwyllgor Safonau Ynys Môn Cadeirydd - Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych
	Sion Huws Delyth E. Jones Lisa Jones	Propriety Officer - Gwynedd Swyddog Monitro - Conwy Dirprwy Swyddog Monitro – Sir Ddinbych
	Peter Rowland Kevin Sibbons	Cadeirydd – Parc Cenedlaethol Eryri Is-Gadeirydd – Pwyllgor Safonau Sir y Fflint
Hefyd Bresennol:	yn Paula White	Aelod Annibynnol – Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych
Swyddogion:	Sian Harland	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor

20. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd enwebu Kevin Sibbons (Cyngor Sir Y Fflint) fel Is Gadeirydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

CYTUNWYD-

Penodi Kevin Sibbons (Cyngor Sir Y Fflint) fel Is Gadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru am 2011/2012.

21. **YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Trevor Coxon (Wrecsam), Gwilym Ellis Evans (Gwynedd), Anwen Jones (Sir Y Fflint), Sue Morris (Ynys Môn), Ceri Nash (Wrecsam), John Pollard (Gwynedd) a Ceri Williams (Conwy).

22. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2011 i'w cymeradwyo.

Nododd Kevin Sibbons (Sir Y Fflint) nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedodd Clive Halliday (Sir Ddinbych) ei fod yn bresennol yn y cyfarfod.

CYTUNWYD-

Yn amodol ar y newidiadau uchod, bod cofnodion y cyfarfod o'r Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2011 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

23. CYLCH GORCHWYL

Cytunodd yr Is-Gadeirydd fod angen Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm er mwyn sicrhau cysondeb ac i amlinellu canllawiau ar gyfer dyfodol Aelodau'r Fforwm.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r materion canlynol:-

- Gweinyddiaeth – a ddylid mynd gyda'r Cadeirydd?
- Amllder cyfarfodydd – chwarterol, misol neu ddwywaith y flwyddyn?

Gan fod nifer fach o Aelodau yn bresennol cytunwyd gohirio'r mater dan gyfarfod nesaf y Fforwm.

CYTUNWYD-

Gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

24. COFRESTR ANRHEGION A LLETYGARWCH

Dywedodd y Cadeirydd, Howie Roberts, bod Pwyllgor Safonau Conwy wedi bod yn trafod lefel Anrhegion a Lletygarwch a chytunwyd y dylid trafod y lefelau a bennwyd gan Gyngorau eraill yn y Fforwm.

Ar hyn o bryd roedd Cyngorau eraill Gogledd Cymru wedi pennu eu lefel ar gyfer Anrhegion a Lletygarwch fel a ganlyn:-

- Sir Ddinbych – £0
- Gwynedd – £25
- Eryri – £25
- Ynys Môn – £20
- Conwy – £25

Dywedodd Swyddog Monitro Ynys Môn ei bod wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn gofyn a ellid pennu lefel Cymru gyfan ar gyfer cofnodi Anrhegion a Lletygarwch, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y Dywysogaeth. Er gwaethaf anfon nodiadau eraill ni chafwyd ymateb oddi wrth y WLGA hyd yma. Cytunodd yr Aelodau y dylid anfon llythyr o'r Fforwm i'r WLGA yn gofyn iddynt ystyried y posibilrwydd o sefydlu lefel Cymru gyfan ar gyfer Anrhegion a Lletygarwch.

Ffordd ymlaen allai fod i'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol ar gyfer Cymru (IRPW) bennu lefel Anrhegion a Lletygarwch Aelodau, gan y buasent yn pennu Lwfansau Aelodau o 2012.

Unwaith eto, o ganlyniad i bresenoldeb isel cytunwyd gohirio unrhyw drafodaethau pellach tan gyfarfod nesaf y Fforwm.

PENDERFYNWYD-

(a) **Gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.**

(b) **Anfon llythyr oddi wrth y Fforwm yn gofyn i'r WLGA ystyried y posibilrwydd o bennu lefelau ar gyfer Anrhegion a Lletygarwch ar gyfer Cynghorwyr Cymru gyfan.**

25. **ATBORTH O GYNHADLEDD SAFONAU CYMRU**

Amlygwyd sylwadau ac atborth o'r Gynhadledd Safonau Cymru fel a ganlyn:-

- Roedd Peter Swanson, yr hwylusydd ar gyfer y Gynhadledd wedi creu argraff
- Er na fyddai'r Ffiniau Etholiadol yng Nghymru yn cael eu hadolygu, dywedodd Swyddog Monitro Ynys Môn fyddai'r ffiniau ar Ynys Môn yn cael eu newid i ostwng y nifer o Aelodau a chyflwyno wardiau aml aelod. Fodd bynnag, byddai Etholiadau ar gyfer Ynys Môn o bosibl wedi eu dileu tan 2013
- Pe bai Aelod yn apelio yn erbyn penderfyniad gan yr Ombwdsmon gallai'r Cyngor wynebu bil cyfreithiol am amddiffyn yr Aelod dan sylw pe rhoddid indemnïad i'r Aelod mewn perthynas â'i gostau. Fodd bynnag, nodwyd bod yr Ombwdsmon yn y broses o gapio'r swm y byddai gan Aelodau hawl iddo pe bai apêl. Nodwyd fod Cyngor Sir Y Fflint ar hyn o bryd yn wynebu bil cyfreithiol mawr iawn o ganlyniad i Aelod yn apelio yn erbyn penderfyniad Ombwdsmon
- Rhoddodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri drosolwg o'r Trefnau Safonau yn Lloegr
- Er byddai cost trefnu Cynhadledd Safonau yn cael ei thalu, roedd elfen amser o ran trefnu digwyddiad mor fawr.

CYTUNWYD-

Nodi'r wybodaeth.

26. **YMATEB GAN YR OMBWDSMON YNGLYN Â FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Roedd yr Aelodau yn falch o nodi fod yr Ombwdsmon dros Gymru wedi ymateb yn gadarnhaol i sefydlu Fforwm a byddai'n fodlon mynychu cyfarfod yn y dyfodol.

Awgrymwyd gwahodd yr Ombwdsmon i fynychu'r ail gyfarfod yn 2012, a fyddai'n sicrhau presenoldeb llawn.

CYTUNWYD-

(a) **Nodi'r mater oddi wrth Ombwdsmon Cymru ynglŷn â Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.**

(b) **Gwahodd yr Ombwdsmon i fynychu ail gyfarfod y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru 2012.**

27. **CWYNION COD YMDDYGIAD**

Cyflwynwyd copïau o lythyrau yr anfonwyd oddi wrth Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys i Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cymru ac Aelodau Cynulliad Cymru.

Roedd y lythyrau'n cyfeirio at bryder Pwyllgor Safonau Powys fod yr Ombwdsmon yn gwrthod cyfeirio materion i'r Pwyllgor Safonau pan oedd wedi canfod tor amod, ar y seiliau na fyddai'r Pwyllgor Safonau yn rhoi sancsiwn. Hoffai Bwyllgor Safonau Powys gael cyfle i ystyried achosion lle cafwyd tor amod. Roedd Pwyllgor Safonau Powys yn credu bod cerydd yn sancsiwn, tra bo'r Ombwdsmon yn ymddangos i beidio meddwl felly.

Roedd sylwadau fel a ganlyn:-

- Nododd y Swyddog Monitro Ynys Môn yn deillio o drafodaethau mewn Cyfarfod Rhwydweithio Swyddogion Monitro, bod peilot wedi cael ei sefydlu gyda Swyddogion Monitro, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a'r Ombwdsmon ar gyfer ateb lleol i gwynion lefel isel
- Roedd gan Sir Ddinbych brotocol Hunan Gofrestru i ddelio â chwynion lefel isel rhwng Aelodau, nad oedd wedi cael ei cyfeirio i'r Ombwdsmon. Byddai'r Protocol hwn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol, gan y gallai gynorthwyo gyda thrwsio perthnasau rhwng Aelodau a oedd wedi torri lawr
- Cytunodd yr Aelodau gyda chynnwys y llythyr a chefnogwyd Pwyllgor Safonau Powys
- Awgrymwyd hefyd y dylid anfon llythyr i'r Ombwdsmon oddi wrth y Fforwm yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Safonau Powys.

CYTUNWYD-

- (a) Anfon llythyr cefnogi oddi wrth y Fforwm i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys.**
- (b) Anfon llythyr oddi wrth y Fforwm i'r Ombwdsmon yn cefnogi sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Safonau Powys.**

28. **UNRHYW FATER ARALL**

Cytunwyd yn y dyfodol y dylid ychwanegu Unrhyw Fater Arall fel Eitem Sefydlog ar y rhaglen Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

Gofynnodd yr Aelodau am drafod rôl Pwyllgor Safonau mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol.

CYTUNWYD-

- (a) Ychwanegu Unrhyw Fater Arall fel Eitem Sefydlog ar Raglenni Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn y dyfodol.**

(b) Bod rôl Pwyllgorau Safonau mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

29. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd yn 2012.

(Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am)
